Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 27ain Tachwedd 2012

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Williams, G. Parry, A. Thomas, B. Jones, G.C. Jones, E. Jones, I. Bebb, H. Huws.
Aelodau Newydd: Dennis Williams, Emlyn Parry
Cynghorydd Sirol J. Evans
Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: J. Roberts, J. A. Edwards

Croesawyd y ddau aelod newydd i'r Cyngor Bro.
Adroddwyd bod y Clerc wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod, felly nid oedd y papurau ar gael o flaen llaw.

2. Datganiadau Diddordeb: E. Jones eitem 10. Cais cynllunio Dryll y Bowl

3. Materion y Cyngor Sir
3.1 Cyfarfod arbennig i'w gynnal 10fed Rhagfyr yn ymwneud ag ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol.
3.2 Gwaith i'r Cynllun Parcio a Theithio Refail Goch wedi cychwyn.

Materion Cyngor Bro - Adroddiad gan y Cadeirydd
3.3 **Adroddwyd bod coeden wedi disgyn a tharo car yn y maes parcio: Cais yswirant ar y gwell**

Angen trefnu tocio'r coed a chael adroddiad gan arbenigwr ar gyflwr yr holl goed.
3.4 Sul y Cofio - diolchwyd i'r rhai a fynychodd y gwasanaethau yn y capel ac wrth y cloc. Diolchwyd i Andre Le Cras a Gavin Roberts am eu gwaith ar y cloc.
3.5 Gwaith wedi'i gwblhau gan R. G. Hire i wella sefyllfa dwr yn y Gors.
3.6 Neuadd Goffa - Adroddiad risg o Lifogydd wedi'i baratoi. Y cais cynllunio wedi mynd i'r Cyngor Sir.
3.7 Y Cadeirydd a'r is Gadeirydd i gyfarfod gyda Albert Owen AS ar y 7fed ynglŷn â'r Neuadd Goffa.
3.8 Ffair Nadolig i'w gynnal ar y 1af a'r 2il Rhagfyr wedi'i drefnu gan nifer o rieni'r pentref. Y Capel yn ymwybodol bod ffair fach yn y maes parcio ar y Sul. Nodwyd bydd y Cyngor bro yn yswirio'r goeden Nadolig a bod goleuadau solar yn cael eu defnyddio. Y ffair fach gydag yswiriant eu hunain.
3.9 Ymgyrch yn erbyn peilonau -

- Penderfynwyd yng nghyfarfod arbennig Un Llais Cymru i wrthwynebu'r peilonau.
- G.C. Jones ac H. Huws yn drafftio llythyr i fynegi gwrthwynebiad Cyngor Bro Llanfairpwll.
- Mae bwriad cael cynhyrchu taflen ymateb hawdd ar gyfer y cyhoedd.
- Llythyru'r Teulu Brenhinol i ofyn am gefnogaeth.

Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei holl waith yn absenoldeb y Clerc.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 30ain Hydref 2012
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. C. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 J. Roberts yn drafftio ymateb i ymgynghoriad Rhesymoli Gofal i'r Henoed. Derbyn ymateb J. Roberts.
5.2 Y Clerc i yrru manylion torri gwair/llwybrau ayyb i G. C. Jones er mwyn ysgrifennu dogfen tendr.
5.3 Skatepark - B. Jones wedi mynychu seminar chwarae yn ddiweddar ac am ail ysgrifennu'r holiadur. I'w roi ar agenda Pwyllgor Meysydd Chwarae.
5.4 Nodwyd bod dail wedi disgyn o'r coed ar draws maes parcio'r fynwent. Gofyn i Ieuan Jones fynd draw gyda'r peiriant sugno pan fydd y tywydd yn sych.

6. Cofnodion Pwyllgor y Fynwent 13eg Tachwedd 2012
Cynigwyd gan G. Parry ac eiliwyd gan A. Thomas. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi
7.1 Adolygu ffioedd - cytunwyd i godi ffioedd ym mis Ebrill 2013 fel y cynigwyd. Y Clerc i hysbysebu'r ffioedd newydd.
7.2 Llwybr y Fynwent - derbyniwyd dau gynnig am y gwaith i greu llwybr. Y Clerc i ofyn am fwy o fanylion gan K. M Williams cyn gwneud penderfyniad.

8. Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 13eg Tachwedd 2012
Cynigwyd gan I. Bebb ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi
9.1 Ffenestr wedi'i dorri gan aelod o'r clwb ieuenctid. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda'r swyddog ieuenctid yn y Cyngor Sir er mwyn darganfod pwy fydd yn talu am ei atgyweirio.
9.2 Ffioedd Snwcer - cynigwyd codi ffioedd byrddau snwcer i 40c am 10 munud. Cytunwyd.
Cafwyd trafodaeth am y ffordd mae'r Clwb Snwcer yn cael ei sybsideiddio. Cynigwyd gan G. C. Jones ac eiliwyd gan I. Bebb i gynnig swm bob mis i'r Clwb ac iddynt fod yn gyfrifol am dalu'r holl gostau cynnal a chadw gan gynnwys y trydan. Cytunwyd mewn egwyddor. A. Williams i ddod o hyd i'r cytundeb rhwng y Cyngor Bro a'r Clwb Snwcer. Y Pwyllgor Cyllid i edrych ar y ffigyrau.

10. Ceisiadau Cynllunio
31 C 381B Dryll y Bowl - dim sylw. Ni chymerodd E. Jones ran yn y drafodaeth.

11. Cyfrifon Mis Hydref 2012
Cyflwynwyd taenlen taliadau a derbyniadau mis Tachwedd 2012 a gwariant yn erbyn y gyllideb.
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. Parry, derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir a chytunwyd i'r taliadau.

12. Gohebiaeth
1. CSYM Penderfyniadau Cynllunio er gwybodaeth
2. CSYM Penderfyniadau Cynllunio er gwybodaeth
3. Llun am Wyth - hysbysebu eu bod yn symud o'r Neuadd Goffa oherwydd pryder am gyflwr yr adeilad
4. Gwasanaethau Graeanu - dim newid i'r gwasanaeth yn Llanfairpwll
5. CSYM - Ildio Prydles Refail Goch - y Cadeirydd i arwyddo.

16. Unrhyw Fater Arall
1. Lon Hedydd - cerbydau'n parcio ar ddwy ochr i'r ffordd ac yn atal cerbydau eraill fyn heibio. Tynnu sylw'r adran briffyrdd i'r mater.

Dyddiad cyfarfod nesaf nos Fawrth 18fed Rhagfyr 2012 am 7.00yh

Arwyddwyd .....(Cadeirydd) .....Dyddiad